# Noson Garolau

## Ysgol Gyfun Garth Olwg

## 6 o'r gloch

## Rhagfyr y 15fed

yn

## Theatr Canolfan Gydol Oes Garth Olwg

*Bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn y gyngerdd...*

## *"CROESO I BAWB"*

O deued pob **Cristion** Fethlem yr awron I weled mor dirion yw'n Duw; O

ddyfnder rhyfeddod, fe drefnodd y Duwdod Dragwyddol gyfamod i fyw: Daeth **Brenin yr hollfyd** i oedfa ein hadfyd Er symud ein penyd a'n pwn; Heb le yn y llety, heb aelwyd, heb wely, **Nadolig** fel hynny gadd hwn. Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau **Mair wiwlan**, Daeth Duwdod mewn baban i'n byd: Ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn A throsto ef gweithiwn i gyd. **Tywysog tangnefedd** wna'n daear o'r diwedd Yn aelwyd gyfannedd i fyw; Ni fegir cenfigen na chynnwrf na chynnen, Dan goron bydd diben ein Duw. Yn frodyr i'n gilydd, drigolion y gwledydd, Cawn rodio yn hafddydd y nef; Ein disgwyl yn Salem i ganu yr anthem Ddechreuwyd ym Methlem, mae Ef. **Rhown glod i'r Mab bychan**, ar liniau Mair wiwlan, Daeth Duwdod mewn baban i'n byd: Ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn A throsto ef gweithiwn i gyd.

O dawel ddinas **Bethlehem**, o dan dy sêr di-ri', Ac awel fwyn Jwdea'n dwyn ei miwsig atat ti: Daw heno seren newydd, dlos i wenu uwch dy ben, A chlywir **cân angylion** glân yn llifo drwy y nen. O dawel ddinas Bethlehem, bugeiliaid heno a ddaw Dros bant a bryn at breseb syn oddi ar y meysydd draw; A chwilio wnânt am faban bach sy'n dod yn Geidwad dyn, Yn obaith byw i ddynol-ryw, y Bugail da ei hun. O dawel ddinas Bethlehem, heno ynot sydd? Pa ddieithr wawr sy'n dod i lawr, ryw dragwyd